

Canllaw Rhif 2 i Ddefnyddwyr

Canllaw i Ddechreuwr ar Ddefnyddio'r Ystafell Ymchwil

BETH FYDD YN DIGWYDD PAN FYDDAF YN CYRRAEDD YR ARCHIFDY?

Bydd angen i chi hysbysu'r staff wrth ddesg yr ystafell ymchwil eich bod wedi cyrraedd. Gofynnir i chi lofnodi'r **llyfr ymwelwyr** a rhoi eich **tocyn darllenwr CARN** i mewn. Os nad oes gennych docyn darllenwr, gofynnir i chi ddangos eich dogfennau adnabod fel y gallwn roi un i chi. Rhaid i'ch dogfennau adnabod gynnwys eich cyfeiriad presennol a'ch llofnod e.e. trwydded yrru, neu fil cyfleustod a cherdyn credyd. Gofynnir i chi roi pob **bag, ffolder a phapurau swmpus** yn y cypyrddau bach sydd yn y cyntedd. Rhoddir bag plastig clir sy'n cau gyda sip i chi roi eich pensiliau a'ch mân eitemau ynddo pan fyddwch yn mynd i'r ystafell ymchwil. Rydym hefyd yn gofyn i chi adael eich **côt** naill ai ar y stand cotiau a ddarperir, neu yn eich cwprdd bach, am resymau diogelwch. Rhaid diffodd **ffonau symudol** cyn mynd i mewn i'r ystafell ymchwil. Rhaid mynd drwy **fariâu diogelwch** sy'n cael ei gweithredu gan staff i fynd i'r ystafell ymchwil. Peidiwch â gwthio'r bariau gan y bydd hyn yn gwneud i larwm ganu - bydd aelod o staff yn eich gadael i mewn ac allan o'r ystafell ymchwil. Dywedir wrthyfych ba ddesg neu ddarllenydd microffilm rydych wedi'i archebu a lle mae'r mynegeion, os nad ydych wedi'u defnyddio o'r blaen.

Rhaid i chi ufuddhau i **Reolau'r Ystafell Ymchwil** bob amser pan fyddwch yn yr Archifdy. Mae'r rhain yn cael eu harddangos yn amlwg yn yr Ystafell Ymchwil – gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â nhw cyn dechrau ar eich gwaith ymchwil.

SUT YDW I'N DEFNYDDIO'R MYNEGEION?

Unwaith i chi sefydlu pa fath o ddogfen rydych am edrych arni, bydd angen i chi ddefnyddio'r mynegeion i ddod o hyd i gyfeirnod pob dogfen neu ddod o hyd i'r microffilm gywir.

MICROFFILMIAU: Mae'r mynegeion i gofrestrau plwyf, cyfrifiadau, papurau newydd a chofnodion eraill ar microffilm ar silffoedd agored yn yr ystafell ymchwil. Unwaith i chi ddod o hyd i'r rhif microffilm cywir, gallwch helpu eich hun i'r microffilm o'r cypyrddau sydd wedi'u lleoli wrth ymyl y darllenydd microffilm. Os ydych yn tynnu microffilm allan, rhowch eich marciwr melyn yn ei le fel y bydd eraill yn gwybod pwy sy'n defnyddio'r rîl arbennig yna. Os ydych yn cael trafferth llwytho'r ffilm ar y peiriant, gofynnwch i aelod o staff am help. Cofiwch droi'r ffilm yn ôl **i'w rîl wreiddiol** cyn ei thynnu o'r darllenydd a'i rhoi'n ôl yn y drôr pan fyddwch wedi gorffen.

DOGFENNAU GWREIDDIOL: Rhoddir rhif cyfeirnod unigol i bob dogfen a gedwir yn Archifdy Sir y Fflint fel y gallwn ddod o hyd iddi. Mae gennym

fynegeion pwnc, lle ac enw personol cyffredinol ar gael ar silffoedd agored. Mae gennym hefyd fynegeion i **fapiau ac ewyllysiau**. Dylid defnyddio'r mynegeion cyffredinol yma fel canllaw i weld os oes gennym wybodaeth ar y pwnc sydd o ddiddordeb arbennig i chi. Gwnewch nodyn o unrhyw gyfeirnodau sydd yn y mynegeion yma. Yna dylech edrych yn y catalogau manylach ar silffoedd yr ystafell ymchwil, i gael syniad cliriach o gynnwys pob eitem ac a yw'n berthnasol i'ch gwaith ymchwil. Gellir archebu dogfennau unigol gan ddefnyddio'r slipiau gofyn am ddogfen, sydd i'w canfod yng nghanol desgiau'r ystafell ymchwil. Rhaid i chi archebu pob eitem yn unigol gan ddefnyddio slip gofyn am ddogfen unigol. Ysgrifennwch gyfeirnod y ddogfen (ynghyd â'ch enw, rhif sedd, a'r dyddiad) ar y slip a'i roi i mewn yn y ddesg ymholiadau i archebu'r cofnodion. Sylwch **nad ydym yn gallu cyflwyno dogfennau rhwng 12.00pm a 1.30pm**. Gofynnwch am bob dogfen cyn 11.45am ar gyfer sesiwn y bore a hanner awr cyn amser cau yn y prynhawn.

LLYFRAU: Ni ellir cadw holl gynnwys y llyfrgell yn yr ystafell ymchwil gyhoeddus gan nad oes digon o le. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r stoc yn cael ei chadw mewn rhan arall o'r Archifdy a rhaid gofyn amdanynt. Mae yna fynegai cerdyn catalog yn yr ystafell ymchwil, a rhestr law ar gyfer casgliad arbennig o lyfrau topograffig/hynafiaethol. Gellir gofyn am lyfrau a chylchgronau sydd ddim yn yr ystafell ymchwil yn yr un modd â dogfennau gwreiddiol, gan ddefnyddio slip gofyn am ddogfen.

COFNODION MYNEDIAD CYFYNGEDIG

Mae rhai mathau o gofnodion, fel rhai cofnodion ysgol a chofnodion wyrwys, yn **gyfyngedig** o dan **Ddeddf Diogelu Data 1998** ac ni chewch edrych ar ddogfennau o'r natur yma heb sicrhau caniatâd Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Cyngor Sir y Fflint yn gyntaf. Bydd aelod o staff yn egluro wrthyhych sut i wneud hyn.

TRIN DOGFENNAU

Edrychwch ar y canllawiau ar wahân i weld sut i drin dogfennau archifol yn gywir. Mae'r rhain i'w gweld yn glir yn yr ystafell ymchwil. Mae'n hanfodol eich bod yn dilyn y canllawiau yma, ac unrhyw gyfarwyddiadau y bydd staff yr ystafell ymchwil yn eu rhoi i chi, er mwyn diogelu archifau unigryw. Os nad ydych yn siŵr ynglŷn ag unrhyw agwedd o drin dogfennau, gofynnwch am help gan aelod o staff.

GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â sut i ddefnyddio'r ystafell ymchwil yn Archifdy Sir y Fflint, mae staff bob amser wrth law i'ch helpu, felly holwch wrth y ddesg ymholiadau.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad.